

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r
Fro

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch, sydd wedi'i lleoli ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 29 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 22 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn fawr, yn fodern ac yn groesawgar. Gwelsom ryngweithio cyfeillgar a gofalgwr rhwng y staff a'r cleifion bob amser.

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio a chymorth i ofalwyr. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth eang o glinigau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ychwanegol. Roedd y gwasanaethau'n cynnwys clinig menopos arbenigol ac adolygiadau o ofal cancer ar gyfer unrhyw gleifion a oedd wedi cael diagnosis yn ddiweddar, ac roedd cyfaill gofal cancer enwebedig ar gael yn y practis er mwyn symleiddio'r broses gymorth a mynediad.

Roedd y practis yn ymwybodol o anghenion y boblogaeth leol ac wedi addasu agweddau ar ei wasanaeth i sicrhau y gallai grwpiau cleifion heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cleifion agored i niwed gael gofal amserol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Oherwydd y nifer isel o ymatebion a gawsom i'n harolwg, efallai yr hoffai'r practis ystyried casglu ei adborth ei hun er mwyn ei adolygu yn erbyn ein canfyddiadau

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd darpariaeth dda o glinigau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol ac anghenion grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau agored i niwed
- Roedd y practis yn fodern ac yn groesawgar
- Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar a gofalgwr rhwng y staff a'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac roedd yr amgylchedd yn addas at y diben. Roedd yn hygyrch, gyda mynediad gwastad i bob ardal ymgynghori ac ardal

drin. Roedd y practis yn ymddangos yn lân ac yn daclus, ac roedd contractwr allanol yn cwblhau'r gwaith glanhau ac yn cynnal cofnodlyfrau'n rheolaidd. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â lefel uchel o lanhau a gwastraff clinigol.

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau da ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion cleifion a oedd yn gadarn yn glinigol, prosesau gwaith da ymhlith y tîm amlldisgyblaethol a threfniadau ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Gwelsom broses amserol ac archwiliadwy ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall ac mae prosesau effeithiol ar waith i reoli profion gwaed a chyfleu canlyniadau dilynol mewn modd amserol.

Ar y cyfan, roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau eraill. Roedd hyn yn cynnwys archebu a gwirio stoc a thymheredd yr oergell. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas ag agweddau amrywiol ar y pecyn meddygol brys a'r broses briodol o gwblhau cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau cleifion.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan waith tîm amlldisgyblaethol, gan gynnwys rhwng staff y practis a'r ymwelwyr iechyd a'r nyrsys ardal a oedd wedi'u cyd-leoli yn yr un adeilad. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd clinigol rheolaidd.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd angen adolygu agweddau ar y pecyn meddygol a oedd ar y troli brys a'r stoc a chynnwys eitemau newydd yn lle'r hen eitemau
- Roedd angen adolygu'r gwaith papur mewn perthynas â'r cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau cleifion i sicrhau ei fod yn parhau'n ddilys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis roi cofnodlyfr pad presgripsiynau ar waith
- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff dyfeisiau meddygol, gan gynnwys yr hyffrecatydd, eu cynnwys yn ei drefniadau gwasanaethu cyffredin.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gwaith da yn cael ei gyflawni gan y tîm amlldisgyblaethol ac roedd y practis yn ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- Roedd proses amserol ac anchwiliadwy ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall i mewn ac allan o'r practis

- Roedd gan y staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir, ac roedd prosesau ar waith i adolygu digwyddiadau a dysgu ohonynt ac ar gyfer diweddariadau clinigol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd aelodau o dîm rheoli'r practis yn brofiadol ym maes ymarfer cyffredinol ac roeddent yn meddu ar wybodaeth gadarn. Roedd partneriaid y practis yn chwarae rôl ragweithiol wrth redeg y practis yn effeithiol a dangosodd staff ar bob lefel ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau.

Ymatebodd 22 o aelodau o staff i'n harolwg. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan y staff yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Roedd pob un o'r staff ond un o'r farn mai gofal yw prif flaenoriaeth y practis, ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir iddynt eu hunain, eu ffrindiau a'u teulu yn y practis hwn.

Roedd dull gweithredu da i'w weld yn y practis o ran gwella ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys gweithgaredd archwilio clinigol a oedd yn gyson â chanlyniadau digwyddiadau o bwys, diddordebau proffesiynol ac arbenigeddau'r meddygon teulu a'r meddygon teulu dan hyfforddiant, a themâu'r clwstwr cyfan.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) hyd at y lefel ofynnol. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai'r practis fyfyrion ar ei ofynion hyfforddiant cyffredinol ar gyfer pob grŵp staff.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod o fewn y cyfnod amser priodol, ac roeddent yn cael eu monitro gan uwchbartneriaid a thîm rheoli'r practis er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am y canlyniadau mewn modd amserol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Roedd angen adolygu'r gwiriadau DBS ar gyfer y staff clinigol i sicrhau bod ganddynt dystysgrifau hyd at y lefel briodol

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod ei arferion recriwtio yn cyd-fynd â'i bolisi ymarfer
- Rhaid i'r practis fyfyrion ar ei ofynion hyfforddiant cyffredinol
- Dylai'r practis roi proses oruchwyllo ffurfiol a dogfen cwrmpas ymarfer ar waith ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn ymddangos bod y strwythur rheoli clinigol ac anghlinigol yn effeithiol
- Roedd dull gweithredu da i'w weld yn y practis o ran gwella ansawdd.
- Roedd mecanweithiau cymhwysedd ac adborth ar waith, fel adolygiadau a gynhelir yn syth ar ôl yr apwyntiad ('hot reviews' yn Saesneg), er mwyn helpu i gefnogi meddygon teulu dan hyfforddiant a rhagnodwyr anfeddygol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr. Oherwydd y nifer isel o ymatebion, nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad llawn yn yr adroddiad hwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r meddygon yn dda, ond nid oes digon o apwyntiadau. Mae'n anodd iawn cael apwyntiad - rwyf ar-lein am 8:00, ond erbyn i mi nodi manylion yr apwyntiad, mae rhywun arall wedi ei gymryd."

"Gofal rhagorol gan y meddygon teulu. Hyd at rai misoedd yn ôl, byddwn wedi dweud bod nifer o fethiannau yn y feddygfa o ran y system, yn arbennig wrth drefnu apwyntiad neu ofyn am gymorth gyda phresgripsiynau, ond rwy'n falch o ddweud bod pethau wedi gwella ac mae'n ymddangos bod staff y dderbynfa bellach yn barod i helpu ac yn hawdd mynd atynt."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth o gyngor hybu iechyd wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am anhwylderau cyffredin, ymgyrchoedd sgrinio a chymorth i ofalwyr. Roedd y wybodaeth yn gyfredol ac o ansawdd da.

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth eang o glinigau ar gyfer rheoli cyflyrau cronig ac yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ychwanegol. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan feddygon teulu, y tîm nyrsio a oedd yn cynnwys ymarferydd nyrsio a nyrsys y practis, yn ogystal â chynorthwyr gofal iechyd a thechnegydd fferyllfa.

Roedd y gwasanaethau'n cynnwys clinig menapos arbenigol ac adolygiadau o ofal canser ar gyfer unrhyw gleifion a oedd wedi cael diagnosis yn ddiweddar, ac roedd

cyfaill gofal canser enwebedig ar gael yn y practis er mwyn symleiddio'r broses gymorth a mynediad.

Roedd gan y practis gydberthnasau gwaith da ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn helpu'r cleifion i gael gofal amserol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â phediatregydd ymgynghorol yn wythnosol, a dywedwyd wrthym fod hyn wedi helpu i sicrhau y caiff atgyfeiriadau eu gwneud at y gwasanaeth gofal eilaidd hwn yn briodol.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y practis yn fawr, yn fodern ac yn groesawgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cyfeillgar a gofalgar rhwng y staff a'r cleifion drwy'r amser, ac roedd drysau'r meddygfeydd a'r clinigau ar gau pan oedd ymgynghoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal.

Roedd yr ardal aros yn sicrhau y gallai staff y dderbynfa a'r cleifion gael sgysiau preifat ar y cyfan. Roedd galwadau ffôn ar gyfer apwyntiadau a threfniadau brysbennu yn cael eu hateb mewn swyddfa breifat i ffwrdd o'r ardaloedd cyhoeddus.

Gwnaethom gadarnhau drwy edrych ar gofnodion cleifion fod y cynnig o hebryngwr a'r penderfyniad i'w dderbyn ai peidio wrth gynnal archwiliad personol, yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion perthnasol. Roedd poster wedi'u harddangos ym mhob rhan berthnasol o'r practis yn hysbysu'r cleifion am y ddarpariaeth.

Amserol

Gofal amserol

Gellir trefnu apwyntiadau brys ac apwyntiadau cyffredin â meddyg teulu drwy ffonio'r practis neu drwy ddefnyddio ap GIG Cymru ar gyfer apwyntiadau cyffredin yn unig. Mae'r apwyntiadau hyn ar gael am 8am. Roedd yn gadarnhaol nodi bod proses ar waith i ddarparu slotiau apwyntiadau ar gyfer grwpiau agored i niwed, a all ei chael hi'n anodd cael apwyntiadau am 8am fel arall. Gwelwyd ei bod yn bosibl trefnu apwyntiadau gyda'r tîm nyrsio a'r cynorthwydd gofal iechyd hyd at bum wythnos ymlaen llaw.

Gwnaethom gadarnhau bod cleifion a oedd yn dioddef argyfyngau meddygol difrifol, fel poenau yn y frest a gwaedu difrifol, yn cael eu hannog i ffonio 999.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dyweddodd y staff wrthym y byddent yn diwallu unrhyw anghenion iaith neu gyfathrebu hysbys a'u bod yn gyfarwydd â gwasanaethau fel Language Line i gefnogi unrhyw anghenion cyfieithu.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd y practis yn ymwybodol o anghenion y boblogaeth leol ac wedi addasu agweddau ar ei wasanaeth i sicrhau y gallai grwpiau cleifion heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau cleifion agored i niwed gael gofal amserol. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o system anfon negeseuon e-bost a thestun ar gyfer y rhai hynny ag anawsterau clywed, slotiau apwyntiadau ar gyfer cleifion agored i niwed, a chlinig hunaniaeth rywedd, a chysylltiad cymunedol effeithiol â'r gymuned sipsiwn a theithwyr.

Fel rhan o'n proses adolygu cofnodion, gwnaethom edrych ar gofnod un o'r cleifion ag anghenion anabledd dysgu cofrestredig. Gwelsom fod y lefel asesu a gwybodaeth glinigol gyffredinol yn gynhwysfawr, a bod ffurflen gwirio iechyd blynyddol Cymru yn cael ei defnyddio i helpu i lywio ei ofal.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis wedi'i adeiladu'n bwrpasol, ac roedd yr amgylchedd yn addas at y diben. Roedd yn hygyrch, gyda mynediad gwastad i bob ardal ymgynghori ac ardal drin.

Roedd cyfarpar canfod tân priodol ar waith ac roedd profion offer cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal ar eitemau trydanol i sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu gofyn am gymorth brys o'u hardaloedd clinigol unigol. Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd y staff eu bod yn gyfarwydd â'r broses hon a sut i ymateb.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y practis yn lân yr olwg ac yn daclus. Roedd contractwr allanol yn cwblhau'r gwaith glanhau ac yn cynnal cofnodlyfrau'n rheolaidd. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cynnwys lefel uchel o lanhau yn yr ardaloedd clinigol ar yr amserlenni glanhau, ac y dylid ystyried atgyweirio neu symud dodrefn wedi'u difrodi yn yr ardal aros.

Rhaid i'r practis gynnwys lefel uchel o lanhau yn yr ardaloedd clinigol ar ei amserlenni glanhau ac ystyried atgyweirio neu symud dodrefn wedi'u difrodi yn yr ardal aros.

Roedd gwastraff clinigol, gan gynnwys eitemau miniog, yn cael ei wahanu'n briodol. Roedd y rhain yn cael eu storio i ffwrdd o ardaloedd a oedd yn hygyrch i'r cyhoedd, ond rhaid i'r practis sicrhau bod y gwastraff clinigol yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys defnyddio caeadau dros dro ar finiau bach yn yr ystafelloedd clinigol a gosod system ddiogelwch ar brif ardal y gwastraff clinigol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr offer miniog a'r gwastraff clinigol yn cael eu storio'n ddiogel.

Gwnaethom nodi bod llenni lliain yn cael eu defnyddio yn yr ardaloedd clinigol o'r practis. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwydd bod amserlen lanhau ar waith ar gyfer y rhain. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis benderfynu a ddylid rhoi hyn ar waith, neu a fyddai'n fwy economaidd iddo eu newid i lenni untro.

Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer y llenni lliain yn yr ardaloedd clinigol neu ystyried eu newid i fersiynau untro.

Wrth edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant y staff, gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rheoli brechlynnau a meddyginiaethau eraill. Roedd hyn yn cynnwys archebu a gwirio stoc a thymheredd yr oergell.

Gwnaethom nodi bod yr oergelloedd clinigol ar glo, ond bod yr allwedd yn ei lle. Er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod, gwnaethom argymhell na ddylai'r practis gadw'r allwedd yn ei lle pan nad yw'n cael ei defnyddio. Nodwyd gennym hefyd fod y meddyginiaethau a oedd yn cael eu storio yn yr oergelloedd yn cael eu storio mewn cynwysyddion caled a gwnaethom argymhell y dylai'r practis storio meddyginiaethau mewn basgedi plastig â thyllau awyru er mwyn sicrhau llif aer oer effeithiol.

Rhaid i'r practis sicrhau nad yw'r allweddi ar gyfer yr oergelloedd clinigol yn cael eu cadw yn eu lle drwy'r adeg a dylid sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n addas.

Gwnaethom edrych ar y cyfarwyddiadau ar gyfer grwpiau cleifion, sy'n rhoi awdurdod cyfreithiol i weithwyr iechyd proffesiynol cofrestredig, ar wahân i ymarferwyr cyffredinol, i gyflenwi a rhoi meddyginiaethau penodol i grŵp cleifion rhagddiffiniedig. Nodwyd gennym nad oedd pump o'r rhain yn cynnwys yr awdurdod rheoli perthnasol ac nad oedd yr adrannau staff awdurdodedig wedi'u nodi. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Roedd staff y practis yn gwybod sut i ymateb i argyfwng meddygol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y practis yn cymryd rhan mewn sefyllfaoedd o argyfwng meddygol, gan roi cyfle effeithiol i'r staff ddysgu. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod problemau o ran yr ail droli brys, a gofynnwyd i'r practis ddatrys y mater hwn ar unwaith. **Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.**

Gwnaethom nodi bod padiau presgripsiwn papur yn cael eu defnyddio yn y practis. Er i ni nodi bod y rhain yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, mae angen i'r practis roi cofnodlyfr pad presgripsiynau ar waith o'r padiau a gaiff eu defnyddio a'r padiau sydd ar gael er mwyn lleihau'r risg y cânt eu defnyddio'n amhriodol.

Dylai'r practis roi cofnodlyfr pad presgripsiynau ar waith.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y staff yn ymwybodol o'r broses i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan bolisi a phroses ddiogelu briodol, ond rydym yn argymhell y dylid diweddarau gweithdrefn llif gwaith y practis i gynnwys nifer y bobl a aeth i Adran Achosion Brys, gan gynnwys y bobl sy'n mynd yno yn aml neu'r rhai hynny sy'n peri pryder o ran diogelu.

Dylai'r practis gynnwys nifer y bobl a aeth i Adran Achosion Brys yn ei weithdrefn llif gwaith.

Roedd tystiolaeth i ddangos bod gwaith da yn cael ei gyflawni gan y tîm amlddisgyblaethol, gan gynnwys rhwng staff y practis a'r ymwelwyr iechyd a'r nyrsys ardal a oedd wedi'u cyd-leoli yn yr un adeilad. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd diogelu a chyfarfodydd clinigol rheolaidd sy'n helpu i nodi unrhyw faterion diogelu a chynnal trafodaeth glinigol arnynt.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau clinigol, gan gynnwys hyfforddiant lefel tri ar gyfer arweinydd diogelu dynodedig y practis. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai rheolwr y practis gwblhau hyfforddiant hyd at lefel 2.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Nodwyd gennym fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn gweithio'n effeithiol. Roedd tystiolaeth bod cyfarpar diffygiol yn cael ei galibradu a bod cyfarpar newydd yn cael ei drefnu drwy gontractau â gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr perthnasol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu cadarnhau a oedd y ddyfais hyffrecatydd a oedd wedi'i lleoli yn yr ystafell mân lawdriniaethau wedi cael ei gwasanaethu'n rheolaidd.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff dyfeisiau meddygol, gan gynnwys yr hyffrecatydd, eu cynnwys yn ei drefniadau gwasanaethu cyffredin.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod prosesau da ar waith er mwyn helpu i ddarparu triniaethau a gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys prosesau i'r tîm amlddisgyblaethol weithio ac ymgysylltu â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.

Gwelsom broses amserol ac archwiliadwy ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau a gohebiaeth arall i mewn ac allan o'r practis ar gyfer gofal eilaidd a/neu weithwyr proffesiynol eraill. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cyfraddau atgyfeirio yn cael eu harchwilio'n glinigol a'u trafod ar lefel y clwstwr.

Mae prosesau effeithiol ar waith i reoli profion gwaed a chyfleu canlyniadau dilynol mewn modd amserol, ac mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i gleifion gysylltu â'r practis.

Roedd gan y staff rolau a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir, ac roedd prosesau ar waith i adolygu digwyddiadau a dysgu ohonynt ac ar gyfer diweddariadau clinigol. Roedd hyn yn cynnwys rhoi gwersi a ddysgwyd ac archwiliadau ar waith yn dilyn canlyniadau'r cyfarfod adolygu digwyddiadau difrifol.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion deg claf a gwelsom fod y cynnwys ar y cyfan yn gadarn yn glinigol ac o ansawdd da.

Roedd y cofnodion yn hawdd i'w defnyddio, yn defnyddio codau Read priodol, ac yn ddigon manwl i alluogi parhad gofal, er enghraifft, pe byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal gan ymarferydd cyffredinol newydd neu locwm. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau, ymchwiliadau, a phrosesau rhagnodi priodol a, lle bo angen, brosesau atgyfeirio pellach at dimau gofal eilaidd neu dimau gofal cymunedol eraill.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd 22 o aelodau o staff i'n harolwg. Roedd yr ymatebion a gafwyd gan y staff yn gadarnhaol iawn, a dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaethau a'r gweithle, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eu gwaith.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl, ac roedd pob un o'r ymatebwyr ond un yn teimlo bod y practis yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, roedd sawl un o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid rhoi mwy o adborth mewn ymateb i ddigwyddiadau a'r gwersi a ddysgwyd.

Roedd pob un o'r staff ond un o'r farn mai gofal yw prif flaenoriaeth y practis, ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir iddynt eu hunain, eu ffrindiau a'u teulu yn y practis hwn.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd aelodau o dîm rheoli'r practis yn brofiadol ym maes ymarfer cyffredinol ac roeddent yn meddu ar wybodaeth gadarn. Roedd partneriaid y practis yn chwarae rôl ragweithiol wrth redeg y practis yn effeithiol a dangosodd staff clinigol o bob lefel ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau, gyda rolau diffiniedig mewn meysydd allweddol fel diogelu, gwella ansawdd, a hyfforddiant clinigol.

Roedd amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau er mwyn helpu i redeg y practis yn effeithiol a oedd, ar y cyfan, wedi'u lleoli'n dda er mwyn diwallu anghenion y practis.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod nifer o wiriadau cyn cyflogi wedi cael eu cwblhau ar y staff i sicrhau eu bod yn addas i'w cyflogi. Roedd hyn yn cynnwys hanesion cyflogaeth, geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, tystiolaeth o gofrestrriad proffesiynol ac indemniad, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd y gwiriadau DBS wedi cael eu cwblhau i

lefel fanylach ar gyfer rhai aelodau o'r staff clinigol. **Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.** Ychydig o dystiolaeth o wiriadau cyn cyflogi oedd ar gael yn ffeiliau aelodau o'r staff ac nid oeddent yn cyd-fynd â pholisi recriwtio'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod ei arferion recriwtio yn cyd-fynd â'i bolisi a bod ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal a'u cadw'n ofalus.

Gwnaethom argymell hefyd y dylid ystyried cynnal proses sgrinio iechyd galwedigaethol ochr yn ochr â'r arferion sefydlu sy'n bodoli eisoes i gyflogeion newydd ac fel y bo angen i gyflogeion presennol.

Dylai'r practis ystyried rhoi proses sgrinio galwedigaethol ar waith fel rhan o'i brosesau recriwtio i sicrhau yr ystyrir unrhyw addasiadau i'r gweithle.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth ddiweddar i ddangos bod amrywiaeth o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant diogelu ac atal a rheoli heintiau, wedi cael ei gwblhau. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis fyfyrwyr ar ei ofynion hyfforddiant cyffredinol er mwyn penderfynu pa fodiwlau y dylai grwpiau staff penodol eu cwblhau a phryd. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau y gellir goruchwyllo cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn effeithiol yn y dyfodol.

Rhaid i'r practis fyfyrwyr ar ei ofynion hyfforddiant cyffredinol er mwyn penderfynu pa fodiwlau y dylai grwpiau staff penodol eu cwblhau a phryd.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod mecanweithiau cymhwysedd ac adborth ar waith, fel adolygiadau a gynhelir yn syth ar ôl yr apwyntiad ('hot reviews' yn Saesneg), er mwyn helpu i gefnogi meddygon teulu dan hyfforddiant a rhagnodwyr anfeddygol. Er mwyn atgyfnerthu'r dull hwn ymhellach, rydym yn argymell y dylai'r practis roi proses oruchwyllo ffurfiol ar waith ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol ac y dylid nodi cwnpas yr ymarfer yn glir mewn dogfen ysgrifenedig.

Rydym yn argymell y dylai'r practis roi proses oruchwyllo ffurfiol ar waith yn ogystal â dogfen cwnpas ymarfer ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y cleifion yn gallu rhoi adborth wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddull cwyno ffurfiol, a oedd yn gydnaws â phroses 'Gweithio i Wella' y GIG.

Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion ffurfiol. Roedd y rhain wedi cael eu cydnabod o fewn y cyfnod amser priodol, ac roeddent yn cael eu monitro gan uwchbartneriaid a thîm rheoli'r practis er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am y canlyniadau mewn modd amserol.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion, data, atgyfeiriadau a cheisiadau yn cael eu casglu, eu rhannu a'u cofnodi'n effeithiol.

Roedd yr holl gofnodion cleifion electronig a'r holl gofnodion cleifion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cytuno eu bod yn gallu cael mynediad at y systemau TG sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth i'r cleifion.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd dull gweithredu da i'w weld yn y practis o ran gwella ansawdd. Roedd hyn yn cynnwys gweithgaredd archwilio clinigol a oedd yn gyson â chanlyniadau digwyddiadau o bwys, diddordebau proffesiynol ac arbenigeddau'r meddygon teulu a'r meddygon teulu dan hyfforddiant, a themâu'r clwstwr cyfan.

Roedd fforymau'r tîm amlddisgyblaethol a fforymau clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd gydag unigolion allanol yn bresennol i rannu diweddariadau clinigol, gwersi i'w dysgu ac i adolygu digwyddiadau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd tystiolaeth bod gwaith clwstwr a gwaith partneriaeth da yn mynd rhagddo i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar ffibriliad atriaidd a phrosesau atal strôc, sgrinio iechyd pobl dros 50 oed, a mynediad at gymorth ffisiotherapi. Mae cysylltiadau lleol wedi'u datblygu â gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys Mind Cymru ac amrywiaeth o weithwyr gofal eilaidd proffesiynol o fewn y bwrdd iechyd lleol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ddim yn gymwys			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Gwnaethom edrych ar y troliau brys, gan gynnwys y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd a'r silindrau ocsigen. Roedd un set o gyfarpar wedi'i lleoli yn ardal y dderbynfa ac roedd ail set o gyfarpar mewn ystafell ochr yng nghoridor yr ystafell ymgynghori. Gwnaethom nodi'r pryderon canlynol mewn perthynas â'r ail set o gyfarpar: i. Ac eithrio'r cyffuriau brys, nid oedd digon o wiriadau'n cael eu cwblhau a'u	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau ansawdd ar gyfer gofal sylfaenol, a nodwyd gan Gyngor Adfywio y DU. Rhaid i'r practis gofnodi a chynnal cofnodlyfrau o'r gwiriadau a gaiff eu cynnal ar y cyfarpar hwn yn wythnosol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel Safonau Ansawdd: Gofal sylfaenol Cyngor Adfywio y DU	(i) Mae'r rhestrau o gyffuriau brys wedi cael eu diwygio er mwyn cynnwys cofnodion wythnosol. Mae'r silindrau ocsigen, y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd, padiau'r diffibriliwr, a'r holl gyfarpar arall wedi cael eu hychwanegu at y ffurflenni wythnosol (gan gynnwys y	K Came	Wedi'i gwblhau

	cofnodi ar weddill y cyfarpar, gan gynnwys y Diffibriliwr Allanol ii. Awtomataidd a'r silindrau ocsigen Roedd batri'r Diffibriliwr Allanol Awtomataidd yn ddiffygiol iii. Nodwyd bod y dyddiad defnyddio ar gyfer y padiau wedi mynd heibio, ond rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar bod padiau newydd wedi cael eu harchebu iv. Nid oedd y dyddiad dod i ben wedi'i nodi ar y masgiau wyneb bag falf ac roedd angen eu harchwilio ymhellach gan eu bod wedi bod yn y practis ers amser			dyddiadau dod i ben) (ii) Mae batri newydd wedi cael ei osod ar gyfer y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ac mae wedi'i brofi. (iii) Dylai'r padiau newydd gyrraedd yr wythnos hon (iv) Mae masgiau wyneb bag falf newydd bellach ar gael (v) Mae neges wedi cael ei hanfon at bob aelod o'r staff a chaiff cynwysyddion â sêl ddiogelwch arnynt eu prynu		Wedi'i gwblhau Cyn gynted ag y cânt eu dosbarthu Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau: i'w prynu cyn gynted â phosibl
--	---	--	--	--	--	---

	v. Nodwyd bod y staff yn benthyg meddyginiaethau oddi ar y troli i'w rhoi i'r cleifion o bryd i'w gilydd. Rhaid atgoffa'r staff i osgoi'r arfer hwn, a dylid storio cyffuriau adfywio / meddyginiaethau a gaiff eu storio ar y troli mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno.					
2.	Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom fod gwiriadau 'sylfaenol' y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi cael eu cynnal ar ddau aelod o staff clinigol. Oherwydd natur y rolau a bod y broses yn cael ei diffinio fel gweithgarwch rheoleiddiedig gan y DBS, mae'n ofynnol i'r practis ddangos tystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu	Rhaid i'r practis adolygu rolau a chyfrifoldebau ei staff i bennu lefel y gwiriad DBS sydd angen ei gynnal. Nid yw'r gwiriadau sylfaenol a gynhelir ar y staff clinigol yn ddigonol. Rhaid i'r practis sicrhau y caiff hyn ei gefnogi gan bolisi a phroses fonitro a goruchwyllo barhaus.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 - Diogel / Y Gweithlu Eligibility for healthcare roles - GOV.UK	Rydym wrthi'n gwneud cais i gynnal Gwiriadau Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer clinigwyr. Mae polisi'r practis wedi cael ei ddatblygu.	K Came	Diwedd mis Awst Wedi'i gwblhau

	cynnal hyd at y lefel briodol. Rhaid i'r practis hefyd sicrhau bod ganddo bolisi ar waith, a'i fod yn nodi statws y gwiriadau y gofynnwyd amdanynt gan y DBS a'r broses fonitro a goruchwyllo barhaus.				
3.	Gwnaethom edrych ar sampl o Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion a gwelsom nad oedd awdurdodiadau rheoli wedi'u nodi ar sawl un o'r ffurflenni hyn. Hefyd, mae angen i'r practis sicrhau bod y llinellau sy'n weddill yn cael eu croesi allan ar ôl i'r defnyddiwr awdurdodedig olaf gael ei ychwanegu at y ffurflen. Oherwydd y rhwymedigaethau proffesiynol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r broses hon, mae angen i'r practis awdurdodi'r	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion eu hawdurdodi'n briodol a bod y llinellau sy'n weddill yn cael eu croesi allan ar ôl i'r defnyddiwr awdurdodedig olaf gael ei ychwanegu at y ffurflen.	Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 / Canllawiau MPG2 NICE	Mae'r holl Gyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion bellach yn cael eu llofnodi'n briodol gan un o'r Meddygon Teulu Partner a chaiff y llinellau sy'n weddill eu croesi allan.	K Came Wedi'i gwblhau

dogfennau hyn yn briodol pan gaiff defnyddwyr eu hychwanegu at y Cyfarwyddiadau ar gyfer Grwpiau Cleifion, neu o fewn cyfnod rhesymol byr wedi hynny.					
---	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): K CAME

Teitl swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 5 Awst 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Gofal Sylfaenol Tredelerch

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Tudalen 12	Rhaid i'r practis gynnwys lefel uchel o lanhau yn yr ardaloedd clinigol ar ei amserlenni glanhau ac ystyried atgyweirio neu symud dodrefn wedi'u difrodi yn yr ardal aros.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 Diogel (Atal a Rheoli Heintiau)	Rydym wedi cwblhau lefel uchel o lanhau, gan gynnwys top rheilen y llenni, ac wedi ei ychwanegu at yr amserlen lanhau wythnosol	Kim Came	Wedi'i gwblhau
2.	Tudalen 12	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr offer miniog a'r gwastraff clinigol yn cael eu storio'n ddiogel.	Diogel (Atal a Rheoli Heintiau)	Archebwyd bin gwastraff clinigol newydd y gellir ei gloi	Kim Came	Bydd wedi'i gwblhau cyn gynted ag y bydd y bin newydd yn cyrraedd
3.	Tudalen 12	Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau ar waith	Diogel (Atal a Rheoli Heintiau)	Mae'r llenni wrthi'n cael eu glanhau a'u	Kim Came	Wedi'i gwblhau ac

		ar gyfer y llenni lliain yn yr ardaloedd clinigol neu ystyried eu newid i fersiynau untro.		hychwanegu at yr amserlen lanhau.		mae'r amserlen wedi cael ei diweddaru.
4.	Tudalen 13	Rhaid i'r practis sicrhau nad yw'r allweddi ar gyfer yr oergelloedd clinigol yn cael eu cadw yn eu lle drwy'r adeg a dylid sicrhau y caiff meddyginiaethau eu storio'n addas.	Diogel (Rheoli Meddyginiaethau)	Caiff yr allweddi eu tynnu pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Rydym wedi prynu basgedi ac wedi'u gosod ym mhob oergell	Kim Came	Wedi'i gwblhau
5.	Tudalen 1	Dylai'r practis roi cofnodlyfr pad presgripsiynau ar waith.	Diogel (Rheoli Meddyginiaethau)	Mae cofnodlyfr wedi cael ei roi ar waith	Kim Came	Wedi'i gwblhau
6.	Tudalen 14	Dylai'r practis gynnwys nifer y bobl a aeth i Adran Achosion Brys yn ei weithdrefn llif gwaith.	Diogel (Diogelu)	Mae'r polisi llif gwaith wedi cael ei ddiweddaru er mwyn cynnwys nifer yr unigolion a aeth i Adran Achosion Brys	Kim Came	Wedi'i gwblhau
7.	Tudalen 15	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff dyfeisiau meddygol, gan gynnwys yr hyffrecatydd, eu cynnwys yn	Diogel (Dyfeisiau Meddygol)	Mae'r Hyffrecatydd bellach wedi cael ei gynnwys yn y trefniadau	Kim Came	Wedi'i gwblhau

		ei drefniadau gwasanaethu cyffredin.		gwasanaethu rheolaidd.		
8.	Tudalen 16	Rhaid i'r practis sicrhau bod ei arferion recriwtio yn cyd-fynd â'i bolisi a bod ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal a'u cadw'n ofalus.	Y Gweithlu (Recriwtio)	Mae ffeiliau'r staff wrthi'n cael eu diweddarau yn unol â pholisi recriwtio'r Practis.	Kim Came	Parhaus
9.	Tudalen 16	Dylai'r practis ystyried rhoi proses sgrinio galwedigaethol ar waith fel rhan o'i brosesau recriwtio i sicrhau yr ystyrir unrhyw addasiadau i'r gweithle.	Y Gweithlu (Recriwtio)	Bydd Rheolwr y Practis yn trafod y posibilrwydd o gyflwyno proses sgrinio galwedigaethol fel rhan o'r broses recriwtio	Kim Came	Parhaus
10.	Tudalen 16	Rhaid i'r practis fyfyrion ar ei ofynion hyfforddiant cyffredinol er mwyn penderfynu pa fodiwlau y dylai grwpiau staff penodol eu cwblhau a phryd.	Y Gweithlu / Diogel	Mae'r trefniadau hyfforddiant cyffredinol wedi cael eu hadolygu yn unol â rolau penodol y staff a chaiff y mater ei drafod â'r unigolion fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol	Kim Came	Wedi'i gwblhau
11.	Tudalen 16	Rydym yn argymhell y dylai'r practis roi proses oruchwyllo	Y Gweithlu	Caiff y Cwmpas Ymarfer ei ddogfennu	Kim Came	Wedi'i gwblhau

		ffurfiol ar waith yn ogystal â dogfen cwmpas ymarfer ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol.		a'i drafod fel rhan o'r broses o ddatblygu rhagnodwyr anfeddygol yn barhaus		
--	--	---	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): K CAME

Teitl swydd: RHEOLWR Y PRACTIS

Dyddiad: 23 MEDI 2025